




Taith 3 - Pellter 6m (ar y mwyaf), cymer tua hanner diwrnod Chwitffordd - Downing - Kinsale - Mostyn – Chwitffordd Downing

[Man cychwyn Cyf AO: 147782]

Cychwyn: Ym mhentref Chwitffordd gan barcio ar yr ochr y ffordd ger yr eglwys neu yn hen faes parcio'r dafarn sydd wedi cau, a chyferbyn a'r eglwys yn y groesffordd ewch i lawr Ffordd Downing Uchaf.

Ewch i mewn i'r dreif drwy'r giatau ac ewch ymlaen i lawr y dreif i'r dde gan droi yn syth cyn giât Downing Uchaf drwy giât mochyn.



I lawr trac (mwdlyd ar brydiau) dros nant (1) gan ddod at adeilad stablau i gyffordd T. Trowch i'r chwith i lawr llwybr llydan a sylwch ar adfeilion Plas Downing ar y chwith. (2)

Ewch ymlaen ar hyd y ffordd wreiddiol o Blas Downing i'r briffordd a'r môr.

Sylwch ar y Coedydd Coch Mawr (Giant Redwoods) bob och i'r trac yn syth cyn y giatau.

Llwybr i'r giât mochyn ar y chwith i'r dreif ger y lluest isaf. (3)

Ewch allan i'r lôn drwy'r giât mochyn yna trowch i'r dde. Cerddwch i'r gyffordd T 25 llach i ffwrdd a throi i'r chwith heibio arwydd 'llyffant' ac i fyny'r allt heibio'r Pysgodfeydd.

Ar ben yr allt troi i'r dde i Lôn Mertyn Downing ger Bwthyn Bryn Oer.(4)

Cerddwch heibio Mertyn Downing, fferm gartref Stad Downing, adeilad rhestredig gradd II yn dyddio o adeg y Rhyfel Cartref, a throi i'r chwith yn syth ar ôl coedlan fechan.(5)



CYMDEITHAS THOMAS PENNANT

"The Father of Cambrian Tourists..."

Ewch drwy giât fferm Kennels; drwy giât haearn ac ar hyd ochr ffens mewn cae mawr elwir yn Gae Gwar, yno ar y chwith gwelir golygfeydd godidog.

Ewch dros gamfa ym mhen draw'r cae. Trowch i'r chwith a mynd gyda'r gwrych am 50 llath, lle gwelir olion hen gamfa a thyfiant wedi gordyfu drosti ar y chwith.

[I fyrhau'r daith ewch i lawr i'r ffordd a throi i'r chwith drwy fwllch cyfyng gan gadw i'r chwith ar hyd ochr ffens wedi gordyfu tan y dewch i gamfa. Tros honno a throi i'r dde a mynd yn syth i lawr yr allt ochr dde i'r tŷ fferm am y bont ac arwydd llwybr cyhoeddus. Trowch i'r dde i lawr lôn i gyffordd T ar ffordd yr arfordir]

Trowch i'r dde yn y giât haearn gan ddilyn y ffens i'r gamfa (Dewis arall gwell efallai: drwy'r giât haearn a throi i'r dde gerfydd y ffens - mynediad haws)

Yn y gamfa mae'r daith yn cyrraedd Clwb Golff Kinsale yn y trac llydan o'r dde - dilyn y trac heibio tŷ ar y chwith ar draws y cwrs golff. Tros y gamfa ym mhen draw'r cwrs golff a throi i'r chwith i lawr llwybr serth drwy'r coed at giât fetel lle gellir gweld y môr a blaen penrhyn Cilgwri gyda Phlas Kinsale (bellach yn ysgol) ar y chwith. (6)

[Byrhau llwybr (14) - i lawr y brif dreif i'r lôn, ac a) Troi i'r dde ac yn y gyffordd T gyda'r briffordd, troi i'r dde ac edrych am lwybr ar ochr chwith y ffrwd i'r hen stemar a'r môr, neu b) Troi i'r chwith ar hyd y ffordd ac i'r chwith yn (12)]

Ar ôl 15m trowch i'r dde; camfa gyda marciwr TP a chroesi cae. I'r chwith o'r llwyn celyn mawr, dros gamfa a phont gerdded.(7) Trowch i'r chwith a dilynwch y gwrych i gamfa ar ochr chwith yr adwy. Dilynwch y trac ar draws y cae ac yn syth i lawr drwy'r coed i'r briffordd. (A548) Camfa ar y chwith.(8)

Trowch i'r chwith ar hyd y ffordd. Gwelir yr hen stemar ar y dde y 'Duke of Lancaster' a SOLITAIRE mewn concrit yn lle parcio'r farchnad; Old Tavern Inn (9) a siop fechan ar y dde. (Man arall posib i gael lluniaeth yw adeiladau Abakhan.)

Ar ôl y tŷ tafarn, edrychwch ar y dde am ffrwd ac arwydd llwybr Cyhoeddus. Cymerwch y llwybr ar y chwith i'r ffrwd i gyfeiriad y llong, o dan bont isel (gwlyb ar ben llanw).(10)

Trowch i'r chwith a dilyn llwybr i'r mor. Trowch i'r chwith ar hyd glan y môr i Ddoc Mostyn.

Trowch i'r chwith i mewn i'r tir (11) dros y bont reilffordd tuag at y briffordd ac eglwys Mostyn.

Trowch i'r chwith yn y lôn fawr ac wedyn i'r dde ger Tafarn Glan-y-Don, i fyny trac yn mynd i Eglwys Crist, Mostyn. Dilynwch y llwybr y tu ôl i'r eglwys ac yn fuan droi'n siarp i'r dde i fyny llwybr serth gyda chanllaw yn mynd i bentref Maes Pennant.



CYMDEITHAS THOMAS PENNANT

"The Father of Cambrian Tourists..."

Croeswch y ffordd a mynd drwy'r giât i lwybr drwy ddoldir hardd (a fu unwaith y ffordd bwysicaf i gyrraedd at Blas Downing).(12) Cadwch yn syth i fyny'r allt tan y dowch at luest isaf Stad Downing.(13)(3)

Oddi yma ewch yn ôl ar hyd y ffordd grand i'r plas ac i'r dde lle mae adfeilion Plas Downing yn ôl i bentref Chwitffordd.

Cydnabyddiaeth:-

- Y Daith Wreiddiol gan John Clark
- Diweddarwyd diwethaf gan: Ryan Jenner 23/09/2010
- Lluniau: Norman Closs-Parry